

Cludiant rhwng y cartref a'r ysgol

- canllaw i etholwyr

Hydref 2022



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
ymchwil.senedd.cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 7301**
E-bost: **Phil.Boshier@Senedd.Cymru**
Twitter: **[@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)**
Gwefan: **ymchwil.senedd.cymru**

© **Hawlfraint Comisiwn Senedd Cymru 2022**

Ceir atgynhychu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhychu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cludiant rhwng y cartref a'r ysgol

- canllaw i etholwyr

Hydref 2022

Awduron:
Siân Hughes

Trosolwg o'r papur:
Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth am gwestiynau cyffredin ynghylch cludiant rhwng y cartref a'r ysgol.



Cynnwys

Y sefyllfa gyfreithiol a chanllawiau statudol	1
Asesu'r angen.....	1
Y ddyletswydd i ddarparu cludiant rhwng y cartref a'r ysgol.....	2
Pellter cerdded.....	2
Ysgol addas agosaf a dewis rhieni.....	2
Darpariaethau yn ôl disgrisiwn	4
Deddfwriaeth cydraddoldeb a chludiant ysgolion	4
Anghenion Dysgu Ychwanegol	5
Diogelwch.....	6
Codi tâl am gludiant rhwng y cartref a'r ysgol.....	6
Rheoliadau Hygyrchedd Cerbydau Gwasanaethau Cyhoeddus	7

Cymorth ariannol ar gyfer cludiant rhwng y cartref a'r ysgol.....	8
Cynllun Tocynnau Teithio Rhatach i Bobl Ifanc.....	8
Grant Dysgu Addysg Bellach Llywodraeth Cymru.....	8
Cronfeydd ariannol wrth gefn (FCF)	9
Ble i gael gwybodaeth.....	9

Y sefyllfa gyfreithiol a chanllawiau statudol

Y brif ddeddfwriaeth o ran cludiant rhwng y cartref a'r ysgol yw **Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008**. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau statudol hefyd, sef **Teithio gan ddysgwyr: canllawiau Gweithredol** (Mehefin 2014) sy'n amlinellu darpariaethau statudol, dyletswyddau penodol a chyfrifoldebau cyrff perthnasol. Mae **Rheoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009** [PDF 51KB] yn nodi'r wybodaeth y mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol ei chyhoeddi.

Yn ôl adran 444 o **Ddeddf Addysg 1996**, bydd rhiant yn troseddu os nad yw ei blentyn yn mynychu'r ysgol y mae wedi cofrestru fel disgybl ynnddi'n rheolaidd. Mae Adran 20 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) yn diwygio adran 444 i ddarparu y bydd gan riant amddiffyniad rhag erlyniad os bydd awdurdod lleol wedi methu â gweithredu, pan fo'n ofynnol, ei ddyletswydd statudol o dan y Mesur i wneud trefniadau i hwyluso cludo fel bod eu plant yn mynychu'r ysgol.

Asesu'r angen

Mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol asesu anghenion teithio dysgwyr yn eu hardal sydd o dan 19 oed. Mae hyn yn cynnwys y rhai y mae rheidrwydd cyfreithiol arnynt i ddarparu cludiant ar eu cyfer a'r rhai y maent yn dymuno darparu cludiant ar eu cyfer yn ôl eu disgrisiwn eu hunain wrth asesu anghenion teithio. Mae hefyd yn ofynnol i awdurdod ystyried:

- Anghenion unrhyw ddysgwyr anabl a dysgwyr sydd ag anawsterau dysgu;
- Anghenion penodol dysgwyr 'sy'n derbyn gofal' neu ddysgwyr sydd wedi derbyn gofal gan awdurdod lleol yn y gorffennol;
- Oedran y dysgwr;
- Y math o lwybr y disgwylir i'r dysgwr ei ddilyn rhwng y cartref a lleoliad yr addysg neu'r hyfforddiant.

Wrth asesu anghenion teithio dysgwyr, mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol ystyried y ffaith na ddylai trefniadau teithio a wneir ganddynt yn sgil asesiad greu lefelau afresymol o straen, gymryd amser afresymol, na bod yn beryglus. Nid yw'r Mesur yn nodi terfyn amser ar gyfer y teithiau. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol asesu anghenion dysgwyr unigol wrth ystyried a yw hyd y daith yn rhesymol.

Y ddyletswydd i ddarparu cludiant rhwng y cartref a'r ysgol

Mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol ddarparu cludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol os bydd disgybl yn byw pellter penodol o'r ysgol addas agosaf, neu y tu hwnt i'r pellter hwnnw. Dim ond at gludiant rhwng y cartref a'r ysgol y cyfeiria'r ddyletswydd hon, ac nid cludiant yn ystod y diwrnod ysgol, er enghraifft rhwng ysgol a choleg.

Pellter cerdded

Mae'r **Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008** yn nodi'r meini prawf ar gyfer pellter o ran yr hyn y gall dysgwyr hawlio cludiant am ddim i'r ysgol addas agosaf ac oddi yno. Cyfeirir at bellteroedd o dan y trothwy fel 'pellter cerdded'. Mae ddyletswydd gyfreithiol ar Awdurdodau Lleol i ddarparu cludiant ysgol am ddim i ddysgwyr sydd o fewn oedran ysgol gorfodol.

- O ran y rhai sy'n mynychu ysgol uwchradd, y pellter yw disgyblion sy'n byw 3 milltir neu fwy o'r ysgol addas agosaf;
- O ran ysgolion cynradd, y pellter cerdded yw 2 filltir.

Mae'r Mesur yn nodi y dylid mesur y pellter cerdded 'ar hyd y ffordd fyrraf sydd ar gael'. Ystyrir bod ffordd "ar gael" os yw'n ddiogel (cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol) i ddysgwr heb anabledd neu anhawster dysgu gerdded y ffordd ar ei ben ei hun, (neu gyda hebryngwr sy'n oedolyn pe byddai oed a lefelau dealltwriaeth y dysgwr yn galw am ddarparu hebryngwr).

Os nad yw ffordd 'ar gael' ac nad oes llwybr cerdded arall ar gael o fewn y pellter perthnasol, ni ellir disgwyl i'r dysgwr gerdded i'r ysgol addas agosaf, hyd yn oed os yw'r pellter rhwng y cartref a'r ysgol yn llai na'r pellter sy'n gymwys i oedran y dysgwr. Mewn achosion felly, mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd i ddarparu cludiant am ddim i'r dysgwr i'r ysgol addas agosaf ac oddi yno. Mae canllawiau gweithredol ynghylch y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (2014) yn cynnwys manylion ynghylch asesu risg sy'n gysylltiedig â llwybrau cerdded i'r ysgol. Rhaid i'r Awdurdod Lleol ystyried y canllawiau hyn.

Ysgol addas agosaf a dewis rhieni

Diffiniad **canllawiau gweithredol y Mesur Teithio gan Ddysgwyr** o 'ysgol addas agosaf' yw rhywle y mae'r:

“addysg neu'r hyfforddiant yn addas mewn perthynas ag oed, gallu a dawn y dysgwr ac unrhyw anawsterau dysgu a allai fod ganddo”

Wrth benderfynu a yw ysgol yn 'addas', mae **canllawiau gweithredol y Mesur Teithio gan Ddysgwyr** yn nodi bod angen i Awdurdodau Lleol ystyried addasrwydd yr ysgol wrth benderfynu a yw'r lleoliad yn briodol ar gyfer y dysgwr.

Mater i'r Awdurdod Lleol yw penderfynu pa ysgol addas yw'r un 'agosaf' i'r dysgwr, yn unol â'i bolisi teithio gan ddysgwyr a'i bolisi addysg. Mae angen i Awdurdodau Lleol nodi sut y dynodir yr ysgol addas agosaf a chyhoeddi'r wybodaeth hon yn eu polisi teithio gan ddysgwyr yn unol â darpariaethau a amlinellir yn **Rheoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009**. [PDF 51KB]

Ni fydd dewis iaith na mamiaith y plentyn na'r rhiant, na ffydd grefyddol na chred y plentyn na'i riant yn cael unrhyw effaith ar pa un a gaiff ysgol ei hystyried yn addas at y dibenion hyn. Mae'n werth nodi, fodd bynnag, bod rhai Awdurdodau Lleol, yn sgil heriau adolygiadau barnwrol, wedi adolygu eu polisiau cludiant rhwng y cartref a'r ysgol a'u bod wedi mynd y tu hwnt i'w dyletswyddau statudol, ac felly wedi ystyried dewisiadau ieithyddol a ffydd wrth benderfynu ar yr ysgol 'agosaf'.

Mae'r un meini prawf oedran a phellter hefyd yn berthnasol i blant 'sy'n derbyn gofal', â'r rhai nad ydynt yn derbyn gofal. Plentyn sy'n derbyn gofal yw person o dan 18 oed sydd yn derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol, neu y darperir llety iddo am fwy na 24 awr gan awdurdod lleol wrth iddo arfer ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Gall hyn fod yn lleoliad gyda gofalgwyr maeth; mewn cartrefi preswyl neu gyda rhieni neu berthnasau eraill. Ond nid yw'r ddarpariaeth, fod yn rhaid i'r dysgwr fynychu'r ysgol addas agosaf i'r cartref, yn berthnasol i ddysgwyr yn yr un modd ag y mae'n berthnasol i ddysgwyr nad ydynt yn derbyn gofal. Yr awdurdod lleol sy'n gofalu am blentyn fydd yn penderfynu lle y dylai ef neu hi fynd i'r ysgol. Gall yr ysgol a ddewisir fod yn ysgol wahanol i'r un addas agosaf oherwydd yr angen i sicrhau parhad mewn addysg neu gyswllt gyda brodyr a chwiorydd neu gyfeillion fel ffordd o hyrwyddo lles. Os felly, darperir trafndiaeth.

Mae **Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998** yn caniatáu i rieni a dysgwyr fynegi dewis dros ysgol benodol. Os caniateir y dewis ac nad yr ysgol a ddewisir yw'r ysgol addas agosaf y cytunir arni gan yr Awdurdod Lleol, nid oes gan y dysgwr hawl i ddarpariaeth cludiant am ddim. Fodd bynnag, mae'r Mesur yn rhoi pwerau i Awdurdodau Lleol ddarparu cludiant rhwng y cartref a'r ysgol yn ôl eu disgrisiwn i ddysgwyr nad ydynt yn mynychu'r ysgol addas agosaf mewn amrywiaeth o amgylchiadau.

Darpariaethau yn ôl disgrisiwn

Yn ogystal â'r ddyletswydd i ddarparu cludiant i rai disgyblion, mae gan awdurdod lleol bwerau i ddefnyddio ei ddisgrisiwn i ddarparu cludiant rhwng y cartref a'r ysgol i ddysgwyr eraill. Nid oes raid i awdurdod lleol ddefnyddio ei bwerau disgrisiwn i ddarparu cludiant am ddim neu gludiant â chymorth. Mae'r pŵer yn berthnasol i'r dysgwr sy'n byw neu'n astudio yn ardal yr awdurdod.

Fodd bynnag, os yw awdurdod lleol yn defnyddio ei bwerau disgrisiwn, mae'n rhaid i'r awdurdod sicrhau bod y polisi yn cael ei gymhwyso i bob dysgwr sy'n wynebu amgylchiadau tebyg yn ardal yr awdurdod hwnnw. Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod unrhyw bolisi yn deg, yn rhesymol ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb berthnasol er mwyn sicrhau nad yw'n gwahaniaethu'n anghyfreithiol rhwng dysgwyr wrth ddefnyddio ei bwerau disgrisiwn. Tynnwyd sylw at hyn gan y Llysoedd mewn achosion diweddar o adolygiadau barnwrol.

Er nad yw'n ofynnol i Awdurdodau Lleol gynnig cludiant am ddim, rhai enghreifftiau o adegau y gellir defnyddio'r ddarpariaeth cludiant yn ôl disgrisiwn yw:

- Plant o dan 5 oed - mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol asesu anghenion cludiant dysgwyr sy'n iau na'r oedran ysgol gorfodol, sydd mewn addysg feithrin ac sydd fel arfer yn byw yn ardal yr awdurdod;
- Ysgolion cyfrwng Cymraeg nad ydynt yn ysgol addas agosaf - mae dyletswydd ar Awdurdodau Lleol a Gweinidogion Cymru o dan y Mesur Teithio gan Ddysgwyr i 'hybu mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg' wrth benderfynu pa ysgolion yw'r mwyaf addas i ddysgwyr yn eu hardal;
- Ysgolion ffydd nad ydynt yn ysgolion addas agosaf;
- Dysgwyr ôl-16 sy'n parhau â'u hastudiaethau mewn lleoliadau addysg bellach neu hyfforddiant prif-ffrwd.

Deddfwriaeth cydraddoldeb a chludiant ysgolion

Mae Atodlen 3, Rhan 2, adran 11 o **Ddeddf Cydraddoldeb 2010** yn cynnwys eithriadau mewn cysylltiad â gwahaniaethu o ran crefydd neu gred mewn perthynas â darparu gwasanaethau. Mae'n nodi nad yw darpariaethau'r Ddeddf Cydraddoldeb, mewn perthynas â gwahaniaethu ar sail crefydd neu gred, yn

gymwys o ran cludiant i'r ysgol ac oddi yno. Felly, mae'n gyfreithiol darparu triniaeth fwy ffafriol i ddisgyblion un grefydd neu gred na chrefydd neu gred o fath arall. Fodd bynnag, mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol sicrhau nad yw eu polisïau cludiant yn gwahaniaethu'n anghyfreithiol mewn cysylltiad â nodweddion gwarchoddedig eraill, neu'n mynd yn groes i'r Ddeddf Hawliau Dynol a'u bod hefyd yn cydymffurfio â chanllawiau statudol Teithio gan Ddysgwyr.

Anghenion Dysgu Ychwanegol

Wrth benderfynu a yw plentyn yn mynychu'r ysgol addas agosaf, mae'n rhaid i awdurdod lleol ystyried pa mor addas yw'r ysgol honno drwy ystyried (ymysg pethau eraill) unrhyw anawsterau dysgu posibl sydd gan y dysgwr, ac a oes gan y dysgwr Cynllun Datblygu Unigol Anghenion Dysgu Ychwanegol ai peidio.

Os penderfynir mai ysgol annibynnol a enwir mewn cynllun datblygu unigol neu ysgol arbennig nas cynhelir yw'r ysgol addas agosaf i'r disgybl a bod y dysgwr yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cludiant am ddim, mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol ddarparu cludiant am ddim i'r dysgwr rhwng y cartref a'r ysgol.

Bydd y trefniadau cludiant ar gyfer dysgwr ag anghenion dysgu ychwanegol yn dibynnu ar ei amgylchiadau unigol a'r llwybr y bydd angen ei deithio. O dan Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, os na all dysgwr o oedran ysgol gorfodol gerdded (gyda chymorth neu hebdo) i'w ysgol addas agosaf, oherwydd anabledd neu anhawster dysgu, hyd yn oed os yw'r pellter i'r ysgol addas agosaf yn llai na'r terfyn statudol ar gyfer ei grŵp oedran, mae'n ddyletswydd ar Awdurdodau Lleol i wneud trefniadau teithio addas i'r plentyn. Bydd angen i'r awdurdod lleol ystyried pa drefniadau sy'n briodol i ganiatáu i'r dysgwr fynychu'r ysgol yn unol â'i bolisi teithio i ddysgwyr.

Mae adran 4 o'r Mesur, i bob pwrpas, yn creu gofyniad penodol i Awdurdodau Lleol addasu eu trefniadau teithio fel ei bod yn ddyletswydd ar yr awdurdod i wneud unrhyw drefniadau teithio sy'n angenrheidiol i ganiatáu i blentyn sydd ag anabledd neu anhawster dysgu fynychu'r ysgol addas agosaf, hyd yn oed os yw'n byw'n agosach i'r ysgol honno na'r pellteroedd cerdded penodedig.

¹ Mae canllawiau gweithredol Teithio gan Ddysgwyr yn defnyddio'r term 'anghenion addysgol arbennig', ond gan fod y term cyfreithiol hwn yn cael ei ddisodli gan 'anghenion dysgu ychwanegol' o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, dyma'r term a ddefnyddir yn y papur hwn.

Fodd bynnag, mae'r ddyletswydd i wneud 'addasiadau rhesymol' (o dan ddarpariaethau Deddf Cydraddoldeb 2010) yn parhau i fod yn berthnasol i natur y drafnidiaeth neu'r trefniadau teithio a wneir gan yr awdurdod lleol o dan y Mesur. Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod y trefniadau sydd ar waith yn caniatáu i ddysgwyr anabl elwa yn yr un modd â'r rhai nad ydynt yn anabl - er enghraifft, drwy sicrhau bod y cludiant a gaiff ei ddarparu yn hygyrch ac yn ddiogel ar gyfer y dysgwr anabl.

Diogelwch

Yn ôl **canllawiau gweithredol Teithio gan Ddysgwyr**, 'mae diogelwch plant yn hollbwysig' ac mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol asesu pa mor addas yw'r trefniadau i gludo dysgwyr rhwng y cartref a lleoliadau addysg neu hyfforddiant.

Wrth asesu anghenion y dysgwr, mae'r canllawiau'n rhestru nifer o bethau y mae'n ofynnol i awdurdod lleol eu hystyried. Mae hyn yn cynnwys 'natur y llwybr y disgwylir i'r dysgwr ei gymryd rhwng y cartref a'r lleoliadau lle y cynhelir yr addysg neu'r hyfforddiant ar eu cyfer.'

Nid yw'r Mesur na'r canllawiau yn cyfeirio'n benodol at unrhyw angen i asesu pa mor ddiogel ydyw i ddysgwyr gerdded i'r man lle cânt eu casglu. Fodd bynnag, **mewn llythyr at holl Aelodau'r Cynulliad** (Hydref 2015) [PDF 158KB], dywedodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar y pryd fod yn rhaid sicrhau bod llwybr diogel ar gyfer dysgwyr sy'n gorfod cerdded i'w man casglu, ac oddi yno, yn ogystal â sicrhau bod y cludiant ei hun yn ddiogel.

Mae canllawiau ynghylch asesu risg contractau gwasanaethau ysgol penodedig i'w cael yng nghanllaw Llywodraeth Cymru, sef **Canllawiau ar Asesiadau Risg Cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol** (2009).

Codi tâl am gludiant rhwng y cartref a'r ysgol

Ni chaniateir i Awdurdodau Lleol godi tâl am drefniadau cludiant y mae dyletswydd arnynt i'w rhoi ar waith ar gyfer plant o oedran ysgol gorfodol, ac eithrio mewn cysylltiad â phlant sy'n derbyn gofal pan mae'r awdurdod lleol yn gwneud y trefniadau teithio ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal gan awdurdod arall. Yn yr achosion hyn, gall adennill costau gan yr awdurdod lleol sy'n gofalu am y plentyn.

Pan fydd awdurdod lleol yn defnyddio'i bwerau i ddarparu cludiant yn ôl disgrisiwn ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn gymwys i gael cludiant am ddim, gall godi tâl am y trefniadau hyn.

Yn achos dysgwyr nad ydynt o oedran ysgol gorfodol, nid oes unrhyw gyfyngiadau o ran codi tâl. Yn achos dysgwyr o oedran ysgol gorfodol, mae'n rhaid codi tâl yn unol ag Adran 455 a 456 o **Ddeddf Addysg 1996**.

Mae'n bosibl y bydd gan ddysgwyr anabl ofynion penodol o ran cludiant (neu mae'n bosibl y bydd angen gwneud addasiadau rhesymol o dan Ddeddf Addysg 2010 yn y cyswllt hwn). Gallai hynny arwain at gynnydd yn y costau cludiant. Mae Deddf Addysg 2010 yn gwahardd awdurdod rhag codi tâl am addasiadau rhesymol y mae wedi'u gwneud ar gyfer dysgwyr anabl.

Felly, os yw cost darparu cludiant ar gyfer dysgwr anabl yn uwch nag y byddai pe bai'r awdurdod yn darparu cludiant ar gyfer dysgwr heb anabledd, (er enghraifft, os oes angen hebryngwr i deithio gyda'r dysgwr neu os oes angen defnyddio cerbyd arbenigol) ni chaiff yr awdurdod godi tâl uwch am y cerbyd arbenigol a / neu'r hebryngwr (neu unrhyw addasiad rhesymol arall) er y gallai'r gost i'r awdurdod fod yn uwch.

Rheoliadau Hygyrchedd Cerbydau Gwasanaethau Cyhoeddus

Mae **Rheoliadau hygyrchedd cerbydau gwasanaethau cyhoeddus** (y Rheoliadau) 2000 a 2005 yn berthnasol i bob cerbyd newydd a ddefnyddir i ddarparu gwasanaeth cyhoeddus (bysiau neu goetsys) sydd:

- Yn cael eu defnyddio ers 31 Rhagfyr 2000
- Yn gallu cludo dros 22 o deithwyr; ac
- Yn cael eu defnyddio i ddarparu gwasanaeth lleol neu reolaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn ar waith yn Lloegr, yr Alban a Chymru ac **Adran Drafndiaeth Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol amdanynt**.

Mae gofynion o dan y rheoliadau wedi'u cyflwyno fesul cam. Rhoddwyd y gofyniad olaf ar waith ar 1 Ionawr 2020. Yn ôl y gofyniad hwn, rhaid i goetsys a ddefnyddir i ddarparu gwasanaeth rheolaidd fod yn hygyrch i gadeiriau olwyn o'r dyddiad hwnnw ymlaen. Dim ond i gerbydau gwasanaethau cyhoeddus y mae'r Rheoliadau'n berthnasol. Os nad yw cerbyd yn darparu gwasanaeth cyhoeddus (hynny yw, nid yw'n cael ei weithredu'n fasnachol i'w logi neu am dâl), nid yw'n cael ei gynnwys yng nghwmpas y rheoliadau. Mae'r rheoliadau'n berthnasol i

gerbydau sy'n cael eu defnyddio gan awdurdodau lleol i gludo dysgwyr yn ôl disgresiwn pan fydd yr awdurdod lleol yn codi tâl ar y dysgwr. Nid yw'r rheoliadau'n cynnwys cludiant y mae'r Awdurdod Lleol yn ei ddarparu i ddysgwyr yn eu hardal o dan drefniadau statudol neu os nad yw'n codi tâl am drefniadau cludiant yn ôl disgresiwn.

Ar 26 Tachwedd 2019, cyhoeddodd Ken Skates, Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, **Ddatganiad Ysgrifenedig** a oedd yn dweud bod trefniadau pontio dros dro wedi'u cyflwyno'n dilyn trafodaethau ag Ysgrifennydd Gwladol y DU dros Drafnidiaeth ynghylch effaith y Rheoliadau ar gludiant i ddysgwyr. Mae hyn wedi cynnig estyniad dwy flynedd ar y cychwyn o'r PSVAR ar gyfer cerbydau sy'n darparu cludiant rhwng y cartref a'r ysgol, ble y caiff hyd at ugain y cant o seddau eu gwerthu. Yn ôl y Datganiad, nid oedd Adran Drafnidiaeth y DU yn bwriadu diddymu'r Rheoliadau, ond byddai'r estyniad yn caniatáu i awdurdodau lleol gynllunio sut y maent yn cynnig lliniaru canlyniadau anfwriadol y Rheoliadau hyn ar gludiant ysgol. Mewn rhai ardaloedd, o ganlyniad i'r rheoliadau, roedd rhai bysiau ysgolion y codir tâl arnynt wedi cael eu tynnu yn ôl.

Cymorth ariannol ar gyfer cludiant rhwng y cartref a'r ysgol

Rhestrir isod rai ffynonellau ariannol posibl i helpu i dalu costau cludiant dysgwyr.

Cynllun Tocynnau Teithio Rhatach i Bobl Ifanc

Mae gan Lywodraeth Cymru gynllun tocynnau teithio rhatach i bobl ifanc. Mae hwn yn caniatáu i bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed sy'n byw yng Nghymru deithio am bris rhatach ar fysiau a gellir defnyddio'r cynllun ar gyfer cludiant i'r ysgol neu'r coleg. Mae hyn yn sicrhau gostyngiad o draean ar gostau teithio. Gellir cael ffurflenni cais a rhagor o wybodaeth ar wefan **Fyngherdynteithio**.

Grant Dysgu Addysg Bellach Llywodraeth Cymru

Er nad cyllid penodol ar gyfer cludiant teithwyr yw hyn, mae'n bosibl y gall dysgwyr 19 oed a hŷn hawlio Grant Dysgu (AB) Llywodraeth Cymru. Mae'r grant yn seiliedig ar swm incwm cartref y myfyriwr. I fedru hawlio'r grant, rhaid i fyfyrwr fod yn astudio o leiaf 275 awr mewn coleg sy'n cymryd rhan yn y cynllun ac mae'n

rhaid i'r cwrs arwain at gymhwyster a gaiff ei gydnabod yn genedlaethol. Mae'n rhaid i incwm cartref y myfyriwr fod yn £18,370 neu lai er mwyn derbyn Grant Dysgu Addysg Bellach Llywodraeth Cymru. Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan [**Cyllid Myfyrwyr Cymru**](#).

Cronfeydd ariannol wrth gefn (FCF)

Cyflwynwyd y Cronfeydd hyn i helpu myfyrwyr ôl-16 sy'n wynebu anawsterau ariannol, ac a fyddai, fel arall, yn debygol o orfod rhoi'r gorau i'w haddysg. Mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod arian Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn ar gael yn flynyddol i sefydliadau addysg bellach unigol a byddant yn dyrannu'r arian i'w myfyrwyr yn ôl eu disgrisiwn. Mae'r Cronfeydd hyn ar gael fel arfer i helpu myfyrwyr i dalu am ofal plant, llyfrau, offer a chostau cludiant. Caiff yr arian ei weinyddu gan y sefydliadau unigol.

Ble i gael gwybodaeth

Mae Rheoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol gyhoeddi gwybodaeth am drefniadau teithio. Mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol gyhoeddi gwybodaeth sy'n cynnwys:

- Y polisi cyffredinol am gludiant am ddim;
- Y polisi cyffredinol am gludiant i ddysgwyr na ddarperir cludiant am ddim ar eu cyfer;
- Yr amgylchiadau ar gyfer gwneud taliadau teithio rhesymol;
- Trefniadau a pholisïau ar gyfer dysgwyr sydd ag anableddau neu anawsterau dysgu;
- Mae'n rhaid sicrhau bod y wybodaeth ar gael erbyn 1 Hydref yn y flwyddyn academaidd cyn y bydd y wybodaeth yn berthnasol.
- Hefyd, mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol ddarparu gwybodaeth am ddim am y canlynol i unrhyw un sy'n gofyn:
 - Asesu anghenion cludiant dysgwyr;
 - Pa mor addas yw'r trefniadau cludiant;
 - Penderfyniadau ynghylch a yw llwybr 'ar gael';
 - Penderfyniadau ynghylch a oes angen trefniadau cludiant i ganiatáu i blentyn i fynychu lleoliad perthnasol lle mae'n cael ei addysg neu hyfforddiant bob dydd;

- Penderfyniadau ynghylch trefniadau teithio gan ddefnyddio pwerau yn ôl disgrisiwn.

Yn gyffredinol, mae gwefannau awdurdodau lleol yn cyhoeddi gwybodaeth am drefniadau cludiant ysgolion fel rhan o'r wybodaeth am dderbyn disgyblion, a hynny'n unol ag argymhellion Llywodraeth Cymru. Nod hyn yw helpu rhieni i ddeall unrhyw oblygiadau o ran costau posibl wrth ddewis ysgol i'w plentyn.